

Sefydlwyd Teams 4U gan Dave Cook, y dyn a sefydlodd hefyd Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Er mwyn hwyluso pethau, byddwn yn gweithio trwy Teams 4 U eleni, a chaiff y bocsys eu hanfon i'r ganolfan gasglu ym Mae Colwyn.

Mae taflenni ar gael sy'n cyflwyno gwaith Teams 4 U ac yn egluro beth i'w roi yn y boc (a beth na ddylid ei roi). Gofynnir am £2.50 gyda phob boc tuag at gost cludiant. (Gellir gwneud sieciau yn daladwy i 'Teams 4 U'.) Cewch ragor o fanylion am Teams 4 U ar y wefan www.teams4u.com. I gael taflen, neu am ragor o wybodaeth am y casgliad yn lleol, ffoniwch y Gweinidog, 01286 872390.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Tachwedd 9: Dosbarth Beiblaidd yn r Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 13: Oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Bore Mawrth, Tachwedd 8: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Fercher, Tachwedd 9: Dosbarth Beiblaidd yn r Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 6

3.30 p.m. - Y Gweinidog
(Oedfa Gymun)

Tachwedd 13

5.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts

Tachwedd 20

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Nos Wener, Tachwedd 11: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 13: Oedfa am 10.00 o'r gloch dan ofal y Gweinidog. Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 13: Ni chynhelir oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Tachwedd 13: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Nos Wener, Tachwedd 11: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 13: Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Tachwedd 7: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 6

10.00 a.m. - Cyfarfod Gweddi
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Tachwedd 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog (Oedfa Gymun)
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Tachwedd 20

10.00 a.m. - Y Parchg Glenys Jones
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Charles W Jones



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 704: Dydd Sul, 06 Tachwedd, 2016

Gair y flwyddyn

Doedd hi fawr o gystadleuaeth a deud y gwir. Cwmni cyhoeddi Collins, pobl y geiriaduron, a ddatgelodd restr fer o 'eiriau Saesneg y flwyddyn' y dydd o'r blaen. Ac o weld mai geiriau fel *hygge*, *sharenting*, *mic drop*, *throw shade* a *dude food* oedd ar y rhestr, pa ryfedd mai *Brexit* a ddaeth i'r brig? Ond os yw *Brexit* yn brifo'ch clustiau, yr unig gysur yw nad *Trumpism* a orfu ym myd y geiriadurwyr. Cawn weld ganol yr wythnos a fydd *Trumpism* yn air y bydd rhaid i'r byd cyfan gynefino ag o dros y blynyddoedd nesaf.

Un peth yw bathu gair. Peth arall yw dod â'r gair hwnnw i mewn i iaith bob dydd. Mewn erthygl dro'n ôl, mi wnes i fentro bathu'r gair 'llunfi' am 'selfie'. Wnaeth o ddim cydio, a dechreuodd pawb ddweud 'hunlun' am y lluniau a gymeran nhw ohonyn nhw eu hunain â'u ffonau symudol. Yn ôl y sôn, dyn o'r enw Peter Wilding a fathodd y gair *Brexit* mewn blog a ysgrifennodd ym mis Mai 2012. Mi gydiodd y gair hwnnw, a daeth yn air cyfarwydd iawn dros y misoedd diwethaf.

Ond mai un peth yw bathu gair a pheth arall yw cael pobl i'w ddefnyddio, peth arall wedyn yw diffinio'r gair hwnnw. A dyna'r drwg efo gair y flwyddyn pobl dda Collins. Oes rhywun a wŷr beth yn union yw ystyr *Brexit*? Ar ei fwyaf syml mae'n golygu rhywbeth fel 'Prydain yn gadael Ewrop'. Ond beth yw ystyr hynny? Mae'n dod yn fwy a mwy amlwg bob dydd nad oes neb yn gwybod beth y mae hynny'n ei olygu.

Roedd a wnelo fo rywbeth â sicrhau'r grym i Senedd San Steffan, ac eto mae pleidwyr *Brexit* yn gandryll am fod yr Uchel Lys ('Uchel Lys Cyfiawnder ei Mawrhydi yn Lloegr', cofiwch) wedi dyfarnu fod rhaid i'r Senedd honno gael trafod a bwrw pleidlais ynghylch 'Cymal 50' cyn dechrau ymwahanu. Hyd y gwelaf, does neb dan haul yn gwybod beth yn union ydi ystyr y *Brexit* hwn y clywn gymaint amdano.

Tybed pa eiriau ddefnyddiwn ni amlaf yn ein haddoliad a'n cenhadaeth, ac wrth dystio i'n Gwardwr Iesu Grist? Mae gennym heb os lawer o hen eiriau a ddefnyddiwyd ers canrifoedd i fynegi ein cred ac i egluro ein ffordd o fyw. Yn wahanol i'r hyn a ddywed rhai, does dim o'i le o gwbl yn yr hen eiriau hynny, yn cynnwys geiriau fel *gras*, *cariad*, *trugaredd*, *maddeuant*, *aberth* ac ati. Does dim o'i le chwaith ar ddefnyddio geiriau newydd a chyfoes i egluro a chyfleu'r gwirioneddau hyn. Ar bob cyfrif, down â geiriau newydd i'n hiaith Gristnogol Gymraeg.

Ond boed y geiriau'n newydd neu hen, mae dau beth yn angenrheidiol. Rhaid i'r geiriau ac i'n defnyddio ni ohonynt fod yn ddealliedig. Waeth i ni heb â siarad nag ysgrifennu am y Ffydd mewn geiriau nad ydym yn llwyddo i gyfleu eu hystyr i eraill. A rhaid i'r geiriau fod nid yn unig yn ddealliedig ond yn ffyddlon i'r gwirionedd a welir yn Y Beibl. Gall y geiriau symlaf a mwyaf ystyrion fod yn ddiwerth os nad ydynt yn driw i Air y Duw Byw.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Gwell yw'r ychydig sydd gan y cyfiawn na chyfoeth mawr y drygionus; oherwydd torri nerth y drygionus, ond bydd yr ARGLWYDD yn cynnal y cyfiawn. Y mae'r ARGLWYDD yn gwyllo dros ddyddiau'r difgeius, ac fe bery eu hetifeddiaeth am byth' (Salm 37:16-18).

Heddiw

Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas, Deiniolen.

Gwasanaethir yn yr Oedfa Gymundeb yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir yn yr Oedfa Gymundeb am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00

o'r gloch gan y Parchg Pryderi Llwyd Jones, Cricieth.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Dosbarth Beiblaidd

Bydd Dosbarth Beiblaidd yn ail ddechrau yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Tachwedd 9. Bydd croeso cynnes yn eich aros.

Sul y Cofio

Cynhelir Gwasanaeth Sul y Cofio yn Neiniolen am 9.15 o'r gloch, ddydd Sul nesaf, Tachwedd 13.

Angladd

Yn Nghapel Carmel ddydd Iau, Tachwedd 3, dan arweiniad y Gweinidog, cynhaliwyd angladd Mr Raymond Tugwell, 9 Ffordd Llanllechid, Rachub a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ddydd Gwener, Hydref 28 yn 67 mlwydd oed. Cymerwyd rhan gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams a rhai o gyfeillion a theulu Raymond. Mrs Helen Williams oedd yr organydd.

Cydymdeimlwn â'i briod, Ann a'u merch Mel, Kel a Jenna, a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

Roedd yn ŵr annwyl ac addfwyn, hwyliog a charedig; ac yr oedd yn amlwg yn boblogaidd a chymeradwy ymhlith ei gydweithwyr yn y Brifysgol ym Mangor ac yn ei gymdogaeth yn Rachub. Bu'n

weithgar iawn ar hyd y blynyddoedd yn trefnu gwahanol weithgareddau i godi arian at achosion da ac unigolion ar adegau o angen.

Yr oedd yn ŵr a thad a thaid ffyddlon i'w briod a'i ferched a'u teuluoedd hwythau. Bu'n ofalus iawn o'i deulu, a chafodd yntau'r gofal gorau ganddynt hwy ers iddo gael ei daro'n wael ychydig fisoedd yn ôl. Soniais yn yr angladd amdano'n gwneud cacennau wedi eu haddurno â'r Ddraig Goch erbyn y Cyfarfod Chwarter a gynhaliwyd yng Ngharmel y noson yr oedd Cymru'n herio Portiwgal yn yr Ewros yn Ffrainc. Roedd hynny mor ddiweddar â dechrau mis Gorffennaf, sy'n dangos mor sydyn y dirywiodd ei iechyd wedi hynny.

Gweddiwn y caiff ei deulu brofi nerth a ddiddanwch yn eu hiraeth a'u colled.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mr Evan Thomas, 89 Maes Padarn, Llanberis yn Capel Coch fore ddoe, Tachwedd 5. Bu farw Evan yn Ysbyty Gwynedd ddydd Llun diwethaf, Hydref 31, yn 71 mlwydd oed. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Gweinidog, a Mrs Bethan Holding oedd yr organydd.

Estynnwn ein cydymdeimlad i'w blant Paul, Steven, Colin, Andrew a Nia a'u teuluoedd, ac i'w frodyr a'i chwiorydd a'r teulu cyfan yn eu colled. Flwyddyn a phedwar mis yn ôl y bu farw ei briod Vivienne, a bu Evan yn eithriadol ei ofal amdani trwy gyfnod hir ei salwch. Wedi blynyddoedd o weini ffyddlon, oddeutu chwe mis wedi colli Vivienne torrodd iechyd Evan yntau ddechrau'r flwyddyn. Cafodd ofal tyner gan ei blant a'r teulu, a gwerthfawrogai'r gofal hwnnw'n fawr.

Fel yr awgryma'i lys-enw 'Evan Brici', gosod briciau oedd crefft Evan, ac yr oedd yn weithiwr caled ac yn grefftwr

medrus. Roedd yn gymeriad addfwyn ac annwyl, yn dawel a thynner, yn gadarn a chywir, yn gymwynasgar a dibynadwy. Roedd yn barchus iawn ei ymddygiad at bawb, ac yn ŵr a berchid yn fawr o fewn ei gymdogaeth.

Bu'n aelod ffyddlon yng Nghapel Coch ac yn barod iawn ei wasanaeth ymarferol fel aelod o Bwyllgor Adeiladau'r capel.

Yn amlwg, bu'n ŵr ffyddlon a chariadus ac yn dad a thaid a brawd arbennig. Bu'n hynod o driw i'w frodyr a'i chwiorydd, ac estynnwn iddynt ein cydymdeimlad dwysaf o gofio fod Evan wedi marw yr un dydd ag y cynhaliwyd angladd ei frawd Ieuan. Boed i Dduw eich nerthu fel teulu cyfan yn eich colled.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Llinos, Sian ac Erin Bryn yn eu profedigaeth o golli eu taid Mr Alun Hughes, 35 Maes Coetmor, Bethesda ar Hydref 25. Cydymdeimlwn hefyd â'i briod, Mrs Alwena Hughes ac â'i ferched a'i fab yng nghyfraith, Susan a Bryn Evans, a Gillian Hughes.

Cydymdeimlwn â Mrs Doris Roberts, Fron Oleu, Llanberis yn ei phrofedigaeth o golli ei hŵyr, Jody Martyn Roberts yn 32 mlwydd oed ddydd Olaf Hydref. Cydymdeimlwn hefyd â'i rieni, Elwyn a Sandra.

Bocsys Nadolig

Fel y soniwyd y Sul diwethaf, bydd cyfle eto eleni i anfon anrhegion Nadolig mewn bocsgidiau i blant anghenus dramor. Bydd y Gweinidog yn derbyn y bocsgys o hyn hyd **nos Sul, Tachwedd 20**. Fel yr eglurwyd y Sul diwethaf, caiff y bocsgys hyn eu hanfon anfon at blant a theuluoedd yn Romania, Uganda, Sierra Leone, Cambodia a'r Iwcrain trwy elusen Teams 4 U (nid trwy Ymgrych Plentyn y Nadolig neu *Operation Christmas Child*).